# Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cyngor Sir y Fflint

## Ysgol Uwchradd John Summers

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg

**Mai 2015: V5**

# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg

## Crynodeb

### 1. Enw'r cynnig / polisi:

Mae'r cynnig yn ymwneud ag Ysgol Uwchradd John Summers, Campws Queensferry, Ffordd Caer, Queensferry, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint. CH5 1SE

(i) Cynnig i derfynu darpariaeth 16-18 Ysgol Uwchradd John Summers erbyn 31 Awst 2016;
(ii) Cynnig i gau Ysgol Uwchradd John Summers (11-16) erbyn 31 Awst 2017.

### 2. Cyfarwyddiaeth / Adran:

Gwasanaethau Addysg ac Ieuenctid

### 3. Swyddog Arweiniol:

Damian Hughes, Cydlynydd Rhaglen

### 4. Prif nod / pwrpas / canlyniad y polisi:

Y cynnig yw lleihau'r ystod oedran yn Ysgol Uwchradd John Summers, Queensferry (ysgol gymunedol, cyfrwng Saesneg) o 11-18 i 11-16, gan derfynu'r ddarpariaeth ôl-16 yn yr ysgol o 31 Awst 2016.

O fis Medi 2016 ymlaen, bydd darpariaeth dysgu ôl-16 ar gael i fyfyrwyr Ysgol Uwchradd John Summers yn y ganolfan ôl-16 bwrpasol yng Ngholeg Cambria, Cei Connah.

Y cynnig yw cau Ysgol Uwchradd John Summers, Queensferry (ysgol gymunedol, cyfrwng Saesneg), gan derfynu'r ddarpariaeth ddysgu (11-16) yn yr ysgol erbyn 31 Awst 2017. Bydd gan fyfyrwyr Ysgol Uwchradd John Summers ddewis o ysgolion uwchradd yn yr ardal i dderbyn eu haddysg. Fodd bynnag, Ysgol Uwchradd Cei Connah yw'r ysgol bartner enwebedig gan y Cyngor. Bydd disgyblion derbyn cefnogaeth bontio waeth pa ysgol y maent yn ei dewis.

5. A ymgynghorwyd/ymgysylltwyd â chyflogeion/defnyddwyr gwasanaeth/y cyhoedd ynghylch y newidiadau arfaethedig: DO / NADDO

Naddo

Bydd cyfarfod ymgynghori cyhoeddus yn cael ei drefnu yn ystod y broses ymgynghori gyhoeddus rhwng 5 Mehefin 2015 ac 17 Gorffennaf 2015, a bydd ymarfer ymgynghori ar wahân hefyd yn cael ei gynnal gyda'r bobl ifanc yn yr ysgol yn ystod yr un cyfnod.

6. Beth sy'n cael ei wneud i gyfyngu ar unrhyw effaith negyddol neu i hyrwyddo effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a/neu grwpiau a ddiogelir (gweler adran 2):

Mae Ysgol Uwchradd John Summers a'r ysgolion uwchradd lleol, sy'n debygol o dderbyn disgyblion John Summers petai'r ysgol yn cau, yn ysgolion cymunedol, cyfrwng Saesneg ac felly nid oes unrhyw effaith negyddol amlwg ar y Gymraeg.

Bydd y gwaith ymgynghori a rhannu'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gyda Grŵp Sicrhau Ansawdd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint yn cael ei gwblhau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys Swyddogion y Cyngor ac aelodau o'r cyhoedd gyda nodweddion a ddiogelir. Bydd y grŵp yn ystyried yr effeithiau a nodwyd ac yn darparu adborth ar unrhyw ffordd bosibl i gyfyngu ar yr effaith negyddol neu i hyrwyddo effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a/neu grwpiau a ddiogelir. Bydd yr asesiad hwn yn dod yn broses organig yn ystod y cyfnod ymgynghori.

7. Sut y bydd y cynigion yn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a hybu cysylltiadau da:

Bydd gan y ganolfan ôl-16 ei hethos ei hun o ran hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cysylltiadau da a bydd yn sicrhau y gall pob myfyriwr chweched dosbarth yn ardal Sir y Fflint gael mynediad i'r ystod briodol o gyrsiau fel y nodir ym mesur Dysgu a Sgiliau Llywodraeth Cymru.

Mae gan yr ysgolion uwchradd partner yn yr ardal leol (Ysgol Uwchradd Cei Connah, Ysgol Uwchradd Penarlâg ac Ysgol Uwchradd Dewi Sant yn Saltney), y bydd y disgyblion o bosibl yn dewis eu mynychu petai Ysgol Uwchradd John Summers yn cau, eu datganiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hunain.

8. A oes cynllun gweithredu yn ei le?

Oes

Enw: Ian budd

Llofnod: Ian Budd

Swydd: Addysg ac Ieuenctid

## Yr Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg

Nod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg yw sicrhau bod polisïau yn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb a'r Gymraeg. Mae'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cyfrannu at lunio polisïau effeithiol trwy ddarparu cyfle i leihau risg a gwneud y gorau o fanteision polisi, gan sicrhau bod gennym ni'r polisi gorau posibl yn eu lle. Mae hefyd yn ein helpu i fodloni ein gofynion dan ddyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. **Trwy gydol y ddogfen hon byddwn yn defnyddio'r gair 'polisi' i gyfeirio at yr hyn rydym ni'n ei asesu. Yn y cyd-destun hwn, mae'r term yn cynnwys y gwahanol bethau a wnawn, gan gynnwys strategaethau, swyddogaethau, gweithdrefnau, arferion, penderfyniadau, cynlluniau a phrosiectau.**

Dylai pob asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ystyried effaith bosibl polisïau mewn perthynas â phob agwedd ar gydraddoldeb a'r Gymraeg, gan gynnwys hawliau dynol a materion economaidd-gymdeithasol. Wrth gynnal asesiad, dylid ystyried canlyniadau negyddol a chadarnhaol eich cynigion. Bydd ein hymagwedd at asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn ein helpu i gryfhau ein gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb a'r Gymraeg. Bydd hefyd yn helpu i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw effaith wahaniaethol bosibl cyn cyflwyno polisi ac i leihau'r risg o heriau cyfreithiol posibl. Wrth gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb dylid ystyried canlyniadau negyddol a chadarnhaol eich cynigion.

Os yw prosiect wedi'i gynllunio ar gyfer grŵp penodol, bydd arnoch chi angen meddwl am yr effaith bosibl y gallai ei gael ar feysydd eraill o gydraddoldeb. Mae cyngor, arweiniad a hyfforddiant pellach ar gael a dylid manteisio arnynt wrth gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

### 1. Casglu Data a Thystiolaeth

| | |
|---|---|
| **Pa dystiolaeth e.e. data, ymchwil, canlyniadau ymgysylltu ac ymgynghori, ydych chi wedi'i defnyddio i ystyried sut y gallai'r polisi hwn effeithio ar y canlynol:-**<br>**i) pobl â nodweddion a ddiogelir**<br>**ii) cyfleoedd i unigolion/cymunedau i ddefnyddio'r Gymraeg**<br>Darparwch ddolen i unrhyw ddogfen berthnasol. Gyda phwy y bu i chi ymgysylltu a beth oedd y canlyniadau? **(Mae ymgysylltu â phobl â nodweddion a ddiogelir yn ofyniad statudol).** | Er mwyn dadansoddi'r dystiolaeth i ystyried yr effeithiau ar bobl â nodweddion a ddiogelir, dadansoddwyd data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) (Ionawr 2015) ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers.<br>Bydd ymgynghori a rhannu'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb gyda Grŵp Sicrhau Ansawdd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint yn cael ei gwblhau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys Swyddogion y Cyngor ac aelodau o'r cyhoedd sydd â nodweddion a ddiogelir.<br>Mae data disgyblion gan y Gwasanaethau Cynhwysiant hefyd wedi'i ddadansoddi. |
| **Pa ymchwil, data neu ymgynghori ychwanegol sydd ei angen i lenwi unrhyw fwlch o ran deall effeithiau'r polisi?** | Adroddiadau arolygu ESTYN. |

### 2 Asesiad o'r effaith a pholisi cryfhau

Mae'r adran hon yn gofyn i chi asesu effaith y polisi ar bob un o'r grwpiau a ddiogelir a'r Gymraeg.

## Yn defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael, nodwch effeithiau'r polisi hwn ar y grwpiau canlynol

| **Nodwch yr effaith** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Effaith gadarnhaol**<br><br>**Oes / Nac Oes** | **Effaith negyddol**<br><br>**Oes / Nac Oes** | **Dim effaith** | **Sut yr effeithir ar y grŵp hwn a beth yw'r dystiolaeth?** | **Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol** | **Sut y gallwch chi hybu effaith gadarnhaol[1]** |
| **Oedran**<br><br>*(ar draws y sbectrwm oedran cyfan)* | Oes | Oes | Effaith | Mae data CYBLD mis Ionawr 2015 yn dweud wrthym ni, o'r 363 o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Uwchradd John Summers, bod y nifer canlynol o ddisgyblion o fewn yr ystodau oedran canlynol:-<br><br>Blwyddyn 7 (tua 11 oed) = 49<br><br>Blwyddyn 8 (tua 12 oed) = 73<br><br>Blwyddyn 9 (tua 13 oed) = 58<br><br>Blwyddyn 10 (tua 14 oed) = 71<br><br>Blwyddyn 11 (tua 15 oed) = 63<br><br>Blwyddyn 12 (tua 16 oed) = 22<br><br>Blwyddyn 13 (tua 17 oed) = 27 | Mae'n ddyletswydd statudol ar bob Awdurdod Lleol i gynnig addysg lawn amser i bob plentyn 5-16 oed. | Cynigir darpariaeth uwchradd amgen a chefnogaeth gwricwlwm barhaus i ddisgyblion ar draws yr ystod oedran.<br><br>Mae'r ddarpariaeth chweched dosbarth mawr newydd yng nghanolfan ôl-16 Coleg Cambria yn lleihau'r angen am drefniadau consortiwm, yn cynyddu cyfleoedd dysgu, yn galluogi disgyblion i gyrraedd eu potensial llawn ac yn lleihau amser teithio. |

[1] **Pa fesurau yn y polisi sy'n helpu i hyrwyddo cydraddoldeb a'r Gymraeg, yn dileu gwahaniaethu ac yn hyrwyddo cysylltiadau da?**

| | Effaith gadarnhaol<br><br>Oes / Nac Oes | Effaith negyddol<br><br>Oes / Nac Oes | Dim effaith | Sut yr effeithir ar y grŵp hwn a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol | Sut y gallwch chi hybu effaith gadarnhaol[2] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anabledd** | Oes | - | Dim Effaith | Mae data CYBLD mis Ionawr 2015 yn cadarnhau bod llai na 10 disgybl yn Ysgol Uwchradd John Summers â Datganiad o Anghenion Arbennig.<br><br>Yn ogystal, mae 51 o ddisgyblion, nad oes ganddynt ddatganiad o addysg arbennig, yn derbyn rhywfaint o gymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (14%)<br><br>59% yn fechgyn<br><br>41% yn ferched | Mae gan Wasanaeth Cynhwysiant y Cyngor nifer o wasanaethau arbenigol rhyngberthynol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r rhain yn cynnwys: Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Gwasanaeth Pobl Ifanc, Gwasanaeth Cwnsela, Gwasanaeth Synhwyraidd, Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol / Sipsiwn/Teithwyr, Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, Gwasanaeth, Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, Gwasanaeth Lles Addysg, Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad, Addysg Heblaw yn yr Ysgol a Gwasanaeth Anhwylderau Sbectrwm Awtistig.<br><br>Maent yn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd yn unol â Chod Ymarfer AAA Cymru (2002) ac maent wedi ymrwymo i ddatblygu polisïau ac arferion sy'n sicrhau cyfle addysgol a mynediad cyfartal, ynghyd â diogelu disgyblion diamddiffyn. Mae yna hefyd ffocws clir ar wella cyflawniad pob dysgwr a chynyddu eu cyfranogiad yn eu hysgolion a'u cymunedau.<br><br>Mae cefnogaeth drwy Wasanaeth Cynhwysiant y Cyngor ar gael i blant a phobl ifanc o fewn yr holl sefydliadau addysgol, h.y. ysgolion cynradd ac uwchradd, ysgolion arbennig a'r portffolio unedau atgyfeirio disgyblion. | Darperir y Gwasanaeth Cynhwysiant o fewn holl ysgolion cynradd ac uwchradd y sir.<br><br>Bydd y ganolfan ôl-16 arfaethedig yng Ngholeg Cambria yn gwbl hygyrch o ran Deddf Cydraddoldeb 2010, a disgwylir y bydd y ganolfan ddysgu ôl-16 newydd yn cynyddu cyfleoedd dysgu ac yn galluogi disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial.<br><br>Mae'r ysgolion uwchradd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn gallu darparu ar gyfer disgyblion yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. |

[2] **Pa fesurau yn y polisi sy'n helpu i hyrwyddo cydraddoldeb a'r Gymraeg, yn dileu gwahaniaethu ac yn hyrwyddo cysylltiadau da?**

| | Effaith gadarnhaol<br><br>Oes / Nac Oes | Effaith negyddol<br><br>Oes / Nac Oes | Dim effaith | Sut yr effeithir ar y grŵp hwn a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol | Sut y gallwch chi hybu effaith gadarnhaol* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ailbennu Rhywedd** | Nac Oes | Nac Oes | Effaith | Nid yw data CYBLD mis Ionawr 2015 yn cynnwys data ar y nodwedd a ddiogelir hon. | Os oes disgybl o Ysgol Uwchradd John Summers â'r nodwedd a ddiogelir hon, bydd yn derbyn y cymorth bugeiliol priodol gan Ysgol Uwchradd John Summers a'r ysgol bartner a ddewiswyd a chanolfan ôl-16 Coleg Cambria. | Mae'r ysgolion uwchradd a'r ganolfan ddysgu ôl-16 y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn gallu darparu ar gyfer disgyblion yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | Nac Oes | Nac Oes | Effaith | Nid yw data CYBLD mis Ionawr 2015 yn cynnwys data ar y nodwedd a ddiogelir hon.<br><br>Yn unol â'r gyfraith, ni all disgyblion dan 16 briodi/ffurfio partneriaeth sifil ac mae angen caniatâd rheini ar y rheiny dan 18 sy'n dymuno priodi/ffurfio partneriaeth sifil. Felly, mae'r nodwedd a ddiogelir hon yn berthnasol i ddisgyblion blynyddoedd 12 ac 13 yn unig. | Os oes disgybl o Ysgol Uwchradd John Summers â'r nodwedd a ddiogelir hon, bydd yn derbyn y cymorth bugeiliol priodol gan Ysgol Uwchradd John Summers a chanolfan ôl-16 Coleg Cambria. | Mae'r ysgolion uwchradd a'r ganolfan ddysgu ôl-16 y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn gallu darparu ar gyfer disgyblion yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Nac Oes | Nac Oes | Effaith | Nid yw data CYBLD mis Ionawr 2015 yn cynnwys data ar y nodwedd a ddiogelir hon. | Os oes disgybl o Ysgol Uwchradd John Summers â'r nodwedd a ddiogelir hon, bydd yn derbyn y cymorth bugeiliol priodol gan Ysgol Uwchradd John Summers a'r ysgol bartner a ddewiswyd neu ganolfan ôl-16 Coleg Cambria. | Mae'r ysgolion uwchradd a'r ganolfan ddysgu ôl-16 y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn gallu darparu ar gyfer disgyblion yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. |

| | Effaith gadarnhaol<br><br>Oes / Nac Oes | Effaith negyddol<br><br>Oes / Nac Oes | Dim effaith | Sut yr effeithir ar y grŵp hwn a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol | Sut y gallwch chi hybu effaith gadarnhaol* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hil** | Nac Oes | Nac Oes | Effaith | Mae data CYBLD mis Ionawr 2015 yn cadarnhau bod 84% o ddisgyblion Ysgol Uwchradd John Summers yn wyn Prydeinig.<br><br>Mae adroddiad arolwg ESTYN 2011 yn nodi bod 'addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yr ysgol yn gynhwysfawr ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ethos cynhwysol yr ysgol.'<br><br>http://www.estyn.gov.uk/english/provider/6644019/<br><br>Mae data'r Gwasanaethau Cynhwysiant yn cadarnhau bod 27 o ddisgyblion Ysgol Uwchradd John Summers yn derbyn cymorth ar gyfer Saesneg fel Iaith Ychwanegol. | Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu cymorth i blant nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf drwy dîm 'Saesneg fel Iaith Ychwanegol' y Gwasanaeth Cynhwysiant. | Bydd disgyblion, beth bynnag eu cefndir ethnig, yn cael cynnig darpariaeth ysgol uwchradd amgen a chefnogaeth barhaus gyda phontio a'r cwricwlwm. |

| | Effaith gadarnhaol<br><br>Oes / Nac Oes | Effaith negyddol<br><br>Oes / Nac Oes | Dim effaith | Sut yr effeithir ar y grŵp hwn a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol | Sut y gallwch chi hybu effaith gadarnhaol* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Crefydd / Cred** | Nac Oes | Nac Oes | Effaith | Nid yw data CYBLD mis Ionawr 2015 yn cynnwys data ar y nodwedd a ddiogelir hon.<br><br>Nid yw Ysgol Uwchradd John Summers yn ysgol wedi'i chysylltu ag enwad.<br><br>Mae adroddiad arolwg Estyn 2011 yn cadarnhau bod 'profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y dysgwyr yn llwyddiannus.' | Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i fonitro darpariaeth a chyflawniad disgyblion ac ysgolion o ran y maes llafur Addysg Grefyddol a gytunwyd arno. | Mae yna ysgolion uwchradd 11-16 ac addysg ôl-16 enwadol ac anenwadol ar gael yn Sir y Fflint i ddisgyblion Ysgol Uwchradd John Summers petai'r ysgol yn cau. |
| **Rhyw** *(Dynion, menywod, bechgyn, merched)* | Nac Oes | Nac Oes | Effaith | Mae data CYBLD mis Ionawr 2015 yn cadarnhau, o'r 363 o ddisgyblion yn Ysgol Uwchradd John Summers, bod:-<br><br>185 = yn fechgyn<br><br>173 = yn ferched | Caiff perfformiad ei fonitro yn ôl rhyw ar lefel yr ysgol a chymerir camau gweithredu drwy Gynllun Gweithredu'r Ysgol i ymdrin ag unrhyw fwlch, gan gyfeirio cefnogaeth i'r meysydd pwnc perthnasol. | Caiff perfformiad ei fonitro fesul rhyw yn yr ysgolion uwchradd amgen y bydd y disgyblion yn eu dewis. |
| **Tueddfryd Rhywiol** | Nac Oes | Nac Oes | Effaith | Nid yw data CYBLD mis Ionawr 2015 yn cynnwys data ar y nodwedd a ddiogelir hon. | Os oes disgybl o Ysgol Uwchradd John Summers â'r nodwedd a ddiogelir hon, bydd yn derbyn y cymorth bugeiliol priodol gan Ysgol Uwchradd John Summers a'r ysgol bartner a ddewiswyd a chanolfan ôl-16 Coleg Cambria. | Mae'r ysgolion uwchradd a'r ganolfan ddysgu ôl-16 y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn gallu darparu ar gyfer disgyblion yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. |

| | Effaith gadarnhaol<br><br>Oes / Nac Oes | Effaith negyddol<br><br>Oes / Nac Oes | Dim effaith | Sut yr effeithir ar y grŵp hwn a beth yw'r dystiolaeth? | Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol | Sut y gallwch chi hybu effaith gadarnhaol* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gymraeg** | Oes | Nac Oes | Dim Effaith | Diffinnir Ysgol Uwchradd John Summer fel Cyfrwng Saesneg – cyfrwng Saesneg yn bennaf ond lle ceir dewis i dderbyn 1 neu 2 o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>O ran% y disgyblion a gyrhaeddodd trothwy lefel 2, yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg (Cyfnod allweddol 4) yn 2014, Ysgol Uwchradd John Summers sydd â'r ganran isaf, 28.1%, o'i chymharu ag ysgolion uwchradd eraill yn yr ardal. Ystyrir fod disgyblion sy'n symud i ysgolion eraill sydd â chanlyniadau gwell yn beth cadarnhaol. | Mae gwasanaeth rhanbarthol GwE yn monitro pob ysgol yn rheolaidd ac mae'r ysgolion hefyd yn derbyn arolygiadau trwy Estyn. | Mae yna ddewis i rieni yn yr ardal i ddewis darpariaeth Gymraeg yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Mae uned Gymraeg newydd yn Shotton ac ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn yr Wyddgrug. |
| **Arall** *(effeithiau ychwanegol fel hawliau dynol, tlodi, pobl sy'n byw mewn* | Nac Oes | Nac Oes | Effaith | Mae ffactorau economaidd-gymdeithasol wedi'u hystyried yn yr asesiad o'r effaith ar y gymuned a gwblhawyd ar gyfer ardal Queensferry.<br><br>Mae'r grwpiau cymunedol canlynol yn defnyddio cyfleusterau Ysgol Uwchradd John Summers:<br><br>Mae'r ysgol yn cael ei llogi unwaith yr wythnos ar gyfer sesiynau gosod blodau, dosbarthiadau celf a chrefft siwgr a gwersi | Os bydd Ysgol Uwchradd John Summers yn cau, bydd ystafelloedd a chyfleusterau yn dal ar gael i'r gymuned oherwydd bod ysgol gynradd a chanolfan gymunedol ar y safle. Yn ogystal, mae Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy ar draws y ffordd dros y bont gerdded. Felly, mae'n annhebygol yr effeithir yn | Mae'r ardaloedd sy'n gwasanaethu Ysgol Uwchradd Cei Connah ac Ysgol Uwchradd John Summers wedi'u nodi'n ardaloedd clwstwr Cymunedau yn Gyntaf gan Lywodraeth Cymru. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *ardaloedd gwledig)* | | | | Saesneg, Mathemateg a Chymraeg i Oedolion.<br><br>Ar hyn o bryd mae Ysgol Gynradd Queensferry yn defnyddio cyfleusterau Ysgol Uwchradd John Summers fel yr ystafell TGCh, y gampfa a'r neuadd (ar gyfer cyngherddau Nadolig). Gan fod Uned Atgyfeirio Disgyblion CA2 hefyd ar y safle, maent hwy hefyd yn defnyddio campfa'r ysgol.<br><br>Mae Celfyddydau Cymunedol yn defnyddio'r cyfleusterau unwaith y mis ac mae tîm Cyfiawnder Ieuenctid yn defnyddio'r cyfleusterau ar fore dydd Sadwrn ynghyd â defnyddwyr eraill fel Coginio ar Gyllideb.<br><br>Mae 33.0% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae data mylocalschool.com yn nodi canran o 31.9% dros gyfartaledd o 3 blynedd yn 2014, sef y ganran uchaf o gymharu ag ysgolion lleol eraill.<br><br>Yn ôl data mis Ionawr 2015 CYBLD mae 4.6% o ddisgyblion Ysgol Uwchradd John Summers yn dod o deuluoedd sipsiwn/teithwyr sy'n byw wrth ymyl yr ysgol. | ormodol ar fynediad i gyfleusterau cymunedol.<br><br>Mae gwybodaeth perfformiad cyfredol yn dangos bod ysgolion eraill cyfagos yn darparu canlyniadau cyffredinol gwell ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Nid yw'r Cyngor felly'n credu y bydd y cynnig yn effeithio'n negyddol ar y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.<br><br>Mae gan y Gwasanaethau Cynhwysiant wasanaeth cymorth pwrpasol ar gyfer disgyblion o deuluoedd sipsi/teithio sydd angen cymorth ychwanegol. | Ni effeithir ar y 10 blaenoriaeth allweddol ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf yn sgil y cynnig i gau Ysgol Uwchradd John Summers.<br><br>Bydd tîm Cymunedau yn Gyntaf yn dal yn gweithio i hyrwyddo'r blaenoriaethau allweddol yn yr ardal.<br><br>Fel rhan o'r ymarfer ymgynghori, bydd gwaith ychwanegol yn cael ei wneud gyda'r grŵp hwn o ddisgyblion a rhieni i liniaru unrhyw effaith bosibl. |

| | |
|---|---|
| **Os na chymerir unrhyw gam i ddileu neu liniaru effaith negyddol/andwyol, nodwch pam.** | **Amh.** |

**4. Caffael**

| | |
|---|---|
| **A fydd y polisi hwn yn cael ei weithredu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan gontractwyr? Os felly, nodwch pa gamau y byddwch chi'n eu cynnwys ymhob cam o'r broses gaffael i fodloni'r gofyniad i ystyried y dyletswyddau cydraddoldeb.**<br><br>Bydd arnoch chi angen meddwl am y canlynol:<br><br>• tendro a manylebau<br>• y broses ddyfarnu<br>• cymalau contract<br>• mesuryddion perfformiad, a<br>• mesuryddion monitro a pherfformiad. | Amh. |

**5. Monitro, Gwerthuso ac Adolygu**

| | |
|---|---|
| **Sut y byddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi newydd?**<br><br>Gallai hyn gynnwys addasiadau neu estyniadau i systemau monitro cyfredol, amserlenni perthnasol ac ymrwymiad i gynnal adolygiad o'r effaith ar gydraddoldeb unwaith y bydd y polisi wedi bod ar waith ers blwyddyn. Rhestrwch unrhyw waith dilynol a fydd yn cael ei wneud mewn perthynas â'r polisi (e.e. arolygon, proses monitro penodol ac ati). | Adolygiad o wybodaeth arolwg CYBLD ar gyfer ysgolion amgen.<br><br>Ionawr 2016<br><br>Ionawr 2017<br><br>Adolygiad gyda'r Gwasanaethau Cynhwysiad o'r effeithiau ar ddisgyblion sy'n symud o Ysgol Uwchradd John Summers i ysgolion uwchradd eraill.<br><br>Adolygiad o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol, gyda GwE a thrwy Estyn. |
| **Nodwch sut y bydd canlyniadau'r asesiad o'r effaith yn cael eu cyhoeddi, gan gynnwys canlyniadau'r ymgynghoriad a gwybodaeth (os yw'n berthnasol).**<br><br>Bydd crynodeb o ganlyniadau pob asesiad o'r effaith yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Gallwch hefyd eu cyhoeddi yn y cyfryngau perthnasol eraill. | Cyhoeddi'r canlyniadau ar Infonet<br><br>Eu cyhoeddi ar wefan Cyngor Sir y Fflint<br><br>Dolen ar wefan yr ysgol<br><br>Ymgynghoriad Cyhoeddus |

## 6. Cynllun Gweithredu

Mae'r isod yn rhoi cyfle i ddatgan sut y bydd unrhyw effaith negyddol yn cael ei lliniaru. Mae hefyd yn caniatáu i chi restru sut y byddwch chi'n mynd i'r afael ag unrhyw fwlch yn y polisi. Edrychwch yn ôl ar gamau 1-7 o'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a chofiwch gynnwys unrhyw gam gweithredu a nodwyd yn y cynllun isod. Sicrhewch fod pob cam gweithredu yn cael ei restru gyda dyddiad targed ac enw aelod o staff penodol. **Dylid ymgorffori'r camau hyn i mewn i'r Gyfarwyddiaeth a'r cynlluniau gwasanaeth.**

| Cam Gweithredu | Swyddog Cyfrifol | Erbyn pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Cyhoeddi crynodeb o'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb[3] | Damian Hughes | 5/05/15 | |
| Rhannu copi o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gyda Gwasanaethau Cynhwysiant Addysg Sir y Fflint cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus | Damian Hughes | 04/05/15 | |
| | | | |
| Cyfarfod ymgynghori cyhoeddus | Ian Budd | Dyddiad i'w gadarnhau | |

[3] Bydd angen cyhoeddi crynodebau o asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n nodi effaith sylweddol

## 7- Llofnodi

**Cam olaf yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yw llofnodi'r ddogfen yn ffurfiol i ddatgan bod yr asesiad yn gyflawn, trylwyr a chadarn.**

Mae'r polisi wedi'i asesu'n llawn mewn perthynas â'i effeithiau posibl ar gydraddoldeb ac mae'r holl bryderon perthnasol wedi cael sylw.

(Unwaith y byddwch chi wedi cwblhau'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, llofnodwch y rhan isod a'i anfon ymlaen at gynrychiolydd y Gyfarwyddiaeth Cydraddoldeb)

**Aelodau o'r tîm asesu**

| Enw | Swydd | Sefydliad |
|---|---|---|
| Jennie Williams | Swyddog Prosiect | Cyngor Sir y Fflint |
| Sarah Thomas | Swyddog Prosiect | Cyngor Sir y Fflint |

**Gwiriad ansawdd: Mae'r ddogfen wedi'i gwirio gan:**

| |
|---|
| Enw: Damian Hughes |
| Swydd: Cydlynydd Rhaglen, Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Cyfarwyddiaeth: Addysg ac Ieuenctid |
| Dyddiad: 4/6/2016 |
| Llofnod: |

**Lefel Cyfarwyddwr (llofnod)**

| |
|---|
| Enw: Ian Budd |
| Swydd: Prif Swyddog |
| Cyfarwyddiaeth: Addysg ac Ieuenctid |
| Dyddiad: 4/6/2016 |
| Llofnod:  |

Anfonwch y ddogfennaeth wedi'i chwblhau at Steph Aldridge, Polisi a Pherfformiad, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug neu at stephanie.aldridge@flintshire.gov.uk